
Coeden Ddarllen Rhydychen

# Arian Poced




Roderick Hunt
Alex Brychta



Roedd Dad eisiau cyfarfod. “Mae gen i syniad da,” meddai.

Ochneidiodd Dids. “Dydw i ddim yn hoffi sŵn hyn,” meddai.

Roedd gan Dad ddarn mawr o bapur.

“Dydw i ddim yn hoffi golwg hyn ychwaith,” meddai Cad.




"Dyw gwyliau ddim yn hwyl," aeth Dad yn ei flaen, "os yw Mam a fi yn gwneud y gwaith i gyd."

"Mae hyn yn wir," meddai Mam. "Mae llawer o fanion angen eu gwneud o hyd."

"Dyma ble mae fy syniad i yn dod i mewn," meddai Dad. "Dyma siart yr arian poced."



Edrychodd Cad, Dids ac Onw ar y siart. Roedd eu henwau nhw arni gyferbyn â rhestr o swyddi.

"Y syniad yw bod yn rhaid i bawb helpu!" meddai Dad. "Mae'n wych!"

"Ond pam mae'n cael ei alw yn siart yr arian poced?" gofynnodd Onw.



Tapiodd Dad y siart.

"Os gwnewch chi y swyddi heb ffws," meddai, "byddwch yn cael arian poced ychwanegol."

Roedd Mam yn hoffi'r syniad.

"Mae angen arian poced ychwanegol arnoch chi ar wyliau," meddai.

"Oes debyg," meddai Cad.






Felly golchodd Cad y llestri a sychodd Onw. Aeth Dids â Mwlsyn am dro. Chwythodd Dad y gwelyau gyda phwmp.

"Rwy'n *hoffi'r* syniad o siart arian poced," meddai Mam.

"Dydw i ddim," meddai Onw.



Y diwrnod canlynol aethon nhw i'r traeth. Roedd yn oer ac yn wyntog felly doedd neb eisiau eistedd ar y tywod. Chwaraeodd Mam ac Onw gyda Mwlsyn. Rhedon nhw i'r môr ar ôl pêl. Aeth Cad, Dids a Dad i chwilio am gregyn.



Edrychodd Cad ar hyd y traeth am gregyn. Cododd garreg ryfedd yr olwg.

"Edrychwch ar hon," meddai. "Carreg yw hi â phatrwm troellen arni."

Dangosodd hi i Dids.

"Mae'n edrych fel cragen wedi ei gwneud o graig," meddai.




“Rydych chi wedi cael gafael ar ffosil,” meddai Dad. “Seren fôr oedd e ar un adeg. Nawr mae wedi troi yn graig.”

Dangoson nhw ef i Mam.

“Mae hwn filiynau o flynyddoedd oed,” meddai hi.

“Miliynau o flynyddoedd!” meddai Cad. “Mae hynny yn anhygoel.”





Dechreuodd pawb chwilio am ffosiliau. Cafodd Dids afael ar un oedd wedi torri. Roedd Cad yn hoffi chwilio am ffosiliau. Roedd hi am gael gafael ar un arbennig o dda.

“Mae’n amser swper,” meddai Mam. “Dewch chi! Yn ôl â ni i’r gwersyll.”




Ar y ffordd yn ôl arhoson nhw mewn siop. Roedd gan Cad, Dids ac Onw amser i edrych o gwmpas. Roedd y siop yn gwerthu pob math o bethau. Roedd yn gwerthu cregyn a theganau traeth. Roedd Onw am brynu cwch.

"Does dim digon o arian poced gen i," meddai.



Gwelodd Cad ffosiliau ar werth.

"Mae hwn yn un anhygoel," meddai. "Ond mae'n ddrud iawn."

"Wel, mae'n *filiynau* o flynyddoedd oed," meddai Dids.

"Bydd angen yr arian poced ychwanegol arnaf fi i fforddio hwn," meddai Cad.



Yn ôl yn y gwersyll, cafodd Cad syniad.

"Fe wnaf fi swyddi pawb," meddyliodd. "Gallaf gael yr arian poced ychwanegol *i gyd*."

Dywedodd wrth Dids y byddai hi'n golchi *a* sychu'r llestri.

"Grêt," meddai Dids. "Rwy'n *casáu* sychu'r llestri."





Roedd yn rhaid i Onw fynd â Mwlsyn am dro o gwmpas y cae. Roedd yn rhaid iddo gadw Mwlsyn ar dennyn.

"Fe af fi ag e os hoffet ti," meddai Cad wrth Onw. Roedd Onw wrth ei fodd.

"Go dda. Rwy'n *casáu* y swydd honno," meddai.



Gwelodd Dad Cad yn mynd â Mwlsyn am dro.

“Beth mae hi’n ei wneud?” meddyliodd. Pan ddaeth Cad yn ei hôl gofynnodd iddi pam yr oedd hi’n gwneud swyddi pawb. Cochodd Cad.

“Rwy am ennill yr arian poced ychwanegol *i gyd*,” meddai.






“Mae’n ddrwg ’da fi, Cad,” meddai Dad. “Mae’n rhaid i *bawb* wneud y swyddi – nid dim ond ti.”

“Ond does dim gwahaniaeth gan Dids ac Onw,” meddai Cad.

“Nid dyna’r pwynt,” meddai Dad. “Y syniad yw ein bod yn rhannu’r swyddi.”

“Ond gweithiais i yn galed,” meddai Cad.



Roedd Cad yn dal wedi llyncu mul pan aethon nhw i'r traeth drannoeth.

"Dyw hi ddim yn deg," meddai hi. "Fe wnes i'r swyddi ychwanegol i gyd, ond chaf fi ddim rhagor o arian."

"Dere ymlaen, Cad," galwodd Dad. "Mae'n ddiwrnod hyfryd i chwarae yn y môr."





Chwaraeodd Cad, Dids ac Onw yn y môr. Roedd dingi bach plastig ganddyn nhw ac fe gymeron nhw eu tro i eistedd ynddo fe.

"Fy nhro i yw e," galwodd Cad.

"Na! Dydw i ddim am ddringo allan," meddai Onw.


"Felly fe daflwn ni ti allan," chwarddodd Dids.



Roedd pawb yn teimlo'n oer ar ôl bod yn y môr. Aeth Dad â nhw am dro ar hyd y traeth. Arhosodd Mam ar ôl. Dechreuodd Cad edrych am ffosiliau.


"Os na fedraf brynu un, efallai y gallaf fi gael hyd i un da," meddyliodd.





Daethon nhw i gilfach fach greigiog. Roedd pobl yn y gilfach. Roedd tîm camera yn tynnu lluniau ffasiwn.

"Mentraf fi mai model yw'r ferch yna," meddai Dids. "Maen nhw'n tynnu lluniau ar gyfer cylchgrawn."



Gwenodd y ferch arnyn nhw.

"Baswn i'n casáu bod yn fodel," meddai Cad. "Y cyfan rydych chi'n ei wneud yw sefyllian o gwmpas am oesoedd."

"Edrychwch ar y camerâu yna," meddai Dids.

"Dewch ymlaen," meddai Onw. "Rydyn ni'n chwilio am ffosiliau, cofio?"






Cerddon nhw bellter, ond chawson nhw ddim gafael ar ffosiliau da. Roedd yn amser cinio felly aethon nhw yn ôl i chwilio am Mam.

"Gwelon ni'r bobl yna yn tynnu lluniau," meddai Dids.



Ar ôl cinio aeth Cad a Dids gyda Mam i'r gilfach greigiog. Roedd y llanw yn dod i mewn eto ac roedd y gilfach yn llenwi gyda dŵr. Pwyntiodd Cad at rywbeth ar graig. Camera oedd e.






"Rhaid bod y ffotograffwyr wedi ei adael ar ôl," meddai.

"Bydd dan y dŵr cyn hir," meddai Mam.

"Gallet nofio drosodd a'i gael e," meddai Dids.

"Ond dydw i ddim yn nofio'n dda iawn," meddai Mam. "Efallai byddaf fi yn ei ollwng."



Cafodd Cad syniad.


"Mae rhaff hir ar y dingi. Gallaf badlo drwy'r dŵr yn ddigon diogel," meddai.

Meddyliodd Mam am hyn.

"Ewch i weld beth mae Dad yn ei feddwl," meddai.

"Brysiwch," meddai Dids, "neu bydd yn rhy hwyr."





Rhedodd Cad i ofyn i Dad. Pan welodd ef y camera cytunodd i adael i Cad ei achub yn y dingi.

"Cymer ofal cofia, Cad," galwodd Mam.

"Mae'n iawn," meddai Cad, "ond edrychwch ar y camera. Bydd e dan y dŵr unrhyw eiliad."




Cyrhaeddodd Cad y camera mewn pryd. Rhoddodd e mewn bag plastig a thynnodd Dad y dingi yn ôl yn ddiogel.

"Hwrê," meddai Onw. "Mae'r camera yn ddiogel."

"Cad yn cario'r dydd!" chwarddodd Cad.






Yr eiliad honno, rhedodd y ffotograffydd atyn nhw.

"Ydych chi wedi gweld camera?" ebychodd. "Gadewais un ar ôl yn y gilfach."

Daliodd Cad y bag plastig i fyny.

"Dyma fe," meddai. "Rwy newydd ei achub yn y dingi."



Roedd y ffotograffydd wrth ei bodd.

"Mae camerâu fel hyn yn ddrud," meddai. "Rwy mor falch ei gael yn ôl."

Tynnodd lun pawb i ddweud diolch.

"Fyddwn ni mewn cylchgrawn?" gofynnodd Onw.






Yna roedd y ffotograffydd am roi arian i Cad.

"Gwobr yw hi am achub fy nghamera," meddai.

Dywedodd Cad na fedrai gymryd yr arian.

"Rwy ond yn falch eich bod wedi cael eich camera yn ôl," meddai.



Roedd Onw yn flin gyda Cad.

"Pam na fyddet ti wedi cymryd yr arian hynny?" gofynnodd. "Byddwn i wedi gwneud."

Edrychodd Dids yn feddylgar.

"Dydw i ddim yn siŵr beth fyddwn i wedi ei wneud," meddai.



Gwenodd Dad ar Cad.

"Rwy'n falch iawn ohonot ti, Cad," meddai.

"Rwy'n credu dy fod yn iawn i beidio â derbyn yr arian," cytunodd Mam. "Os wyt yn gwneud tro da â rhywun, ddylet ti ddim disgwyl gwobr."




Y diwrnod canlynol, rhoddodd Dad arian poced ychwanegol i Cad, Dids ac Onw.

"Gawn ni wneud beth a fynnwn ni gyda'r arian?" gofynnodd Dids.

"Cewch siŵr," meddai Dad.

"Yna fe roddwn ni e i Cad," meddai Onw.

Felly prynodd Cad y ffosil roedd hi ei eisiau cymaint.

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 8

Rhagor o Storïau A

# Arian Poced

Mae'r teulu ar wyliau gwersylla.
A fydd syniad Dad i gael pawb
i rannu swyddi yn gweithio?
Neu aiff pethau o le?



**Cam 8 Rhagor o Storïau A**
**Trefn ddarllen a argymhellir:**

Arian Poced
Yr Ysbryd Drwg
Achubwch Mwlsyn!
Sut Le Oedd Yno?
Llifogydd!
Antur yn yr Aifft

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

ISBN 0-86174-845-X
9 780861 748457

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 2003
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2006
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

www.drakeeducational.com

DRAKE

Argraffwyd yng Nghymru